

**CABINET - DYDD MAWRTH, 17 GORFFENNAF 2018**

**COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWDYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR  
1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB  
DYDD MAWRTH, 17 GORFFENNAF 2018, AM 14:30**

Presennol

Y Cyngorydd HJ David – Cadeirydd

CE Smith  
RE Young

PJ White

HM Williams

D Patel

Swyddogion:

Greg Lane	Head of Democratic Services
Kelly Watson	Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd
Darren Mepham	Prif Weithredwr
Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Zak Shell	Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth

228. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Aelodau canlynol:-

Swyddog A151 a Phennaeth Cyllid Dros Dro  
Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau

229. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cyngorwyr PJ White a RE Young fuddiant personol yn Eitem Agenda 7, gan ei bod yn dweud yn yr adroddiad eu bod wedi'u penodi'n Llywodraethwyr ALI mewn ysgolion penodol.

230. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfodydd y Cabinet wedi'u cynnal ar y dyddiadau canlynol yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir:-

15 Mai 2018  
19 Mehefin 2018

231. MONITRO'R GYLLIDEB 2018-19 – CHWARTER 1 – RHAGOLWG

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad a gyflwynodd gan y Prif Weithredwr yn ei habsenoldeb i roi diweddariad i'r Cabinet ar sefyllfa ariannol y Cyngor ar 20 Mehefin 2018.

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth gefndirol, ac ar ôl hyn dangosodd ym mharagraff 4.1.1 gyllideb refeniw net ac alldro rhagweledig y Cyngor ar gyfer 2018-19 yn Nhabl 1. Adlewyrchodd hyn fod y Cyngor, ar 30 Mehefin 2018, â thanwariant o £1.298m oedd yn debyg i'r statws mewn perthynas â Chwarter 1 yr adeg hon y llynedd.

Manylodd rhan nesaf yr adroddiad ar Newidiadau Technegol/Virements Cyllideb penodol, gydag un o'r ail yn ddyraniad o £3.007m i Gyfarwyddiaethau i fodloni costau'r wobwr tâl wedi'i chytuno'n genedlaethol.

Yna cadarnhaodd y Prif Weithredwr, o ystyried y gostyngiadau graddfa fawr i gyllidebau yn y Cyngor cyfan yn 2018-19 (42.6% o ostyngiadau cyllideb y Cyngor cyfan) fod risg na allai fod digon o gyllid ar gael o fewn y cyllidebau hyn am unrhyw gynyddiadau chwyddiant pris mawr, yn enwedig gan fod cyfraddau chwyddiant yn parhau i fod yn gymharol uwch na blynyddoedd blaenorol (2.4% oedd CPI ym Mai 2018 o gymharu i 0.5% ym mis Mawrth 2016 a 2.3% ym mis Mawrth 2017) felly bydd angen monitro'r gyllideb yn agosach yn ystod gweddill y flwyddyn.

Yna cyfeiriodd at y paragraff o'r enw 'Cynigion Monitro Gostyngiadau Cyllideb' a Gostyngiadau Cyllideb Blynyddoedd Cynt, a Thabl 2 ym mharagraff 4.2.2 yr adroddiad o'r enw Gostyngiadau Cyllideb Blynyddoedd Cyntaf heb eu Cyflawni. Dangosodd hyn, o'r £2.604m o ostyngiadau heb eu cyflawni, ei bod yn debygol y caiff £1.192m ei gyflawni yn 2018-19 gan adael diffyg o £1.412m, gyda sawl cynnig ddim yn cael eu cyflawni o hyd, oedd yn cynnwys Trafnidiaeth i Ddysgwyr ymysg eraill. Roedd diffyg ychwanegol yn ymwneud â Chyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, oedd yn cael ei monitro ar hyn o bryd trwy Gynllun Ariannol.

Parhaodd y Prif Weithredwr gyda'r gyflwyniad, gan yna'n cyfeirio at Ostyngiadau Cyllideb ar gyfer 2018-19, ynghyd â chymhariaeth o'r sefyllfa RAG yn erbyn Chwarter 1 yn 2017-18. Ychwanegodd fod y cynigion ar gyfer y gostyngiadau cyllideb mwyaf sylweddol oedd yn annhebygol o gael eu cyflawni'n gysylltiedig â'r Polisi Trafnidiaeth i Ddysgwyr, Gostyngiadau i'r gyllideb ar gyfer Cyfleusterau Cyhoeddus a Gwaredu Gwasanaethau Bws wedi'u Sybsideiddio.

Yna amlinellodd grynoded o'r sefyllfa ariannol ar gyfer pob prif wasanaeth, y mae mwy o fanylion amdano yn Atodiad 3 yr adroddiad, gyda sylwadau ar yr amrywiadau mwyaf sylweddol ar sail Cyfarwyddiaethau unigol, ym mharagraffau 4.3.1 i 4.3.5 yr adroddiad.

Yna daeth y Prif Weithredwr â'i gyflwyniad i ben, trwy grynhoi cyllidebau'r Cyngor cyfan a monitro'r Rhaglen Gyfalaf, gydag Atodiad 4 yr adroddiad yn rhoi manylion ar gynlluniau unigol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, yn dangos y gyllideb sydd ar gael yn 2018-19 o gymharu â'r gwariant rhagweledig.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Prif Weithredwr am ei gyflwyniad gan nodi'r pwysau ariannol sy'n cael eu profi yng Ngyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol sut oedd y rhain yn cael eu rheoli ar hyn o bryd.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant trwy ddweud bod y Gyfarwyddiaeth yn cael ei herio'n ariannol gan unigolion gydag Anabledd Dysgu gydag ymddygiad heriol a chymhleth iawn, ac roedd hi a'i phrif swyddogion yn ei Chyfarwyddiaeth yn gwneud adolygiad o bwysau darpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i alw uchel yn gysylltiedig â chefnogi pobl â'r cyflwr hwn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys adolygu strwythur y Gwasanaeth Dydd ac ailarchwilio pecynnau gofal gwahanol oedd ar gael i gefnogi'r anghenion hyn. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau parhaol gyda'r adran iechyd ar ddarparu pecynnau ar y cyd lle bo'n briodol.

O ran Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), roedd hi'n falch o gadarnhau bod llai ohonynt nawr nag adeg hon y llynedd, ac roedd awydd defnyddio Gofalwyr Maeth mewnol yn fwy na rhai annibynnol oedd yn llawer mwy drud.

Roedd awdurdodau lleol eraill hefyd yn cael eu meincnodi, er mwyn cael gwybod yr arferion eu bod yn eu mabwysiadu i frwydro treuliau uchel cefnogi unigolion gydag Anableddau Dysgu a PDG yn barhaol.

Atgoffodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr Aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor yfory, a byddai hyn yn amlygu'r heriau sydd i ddod mewn perthynas â'r gwasanaeth, a sut i'w hwynebu yn y ffordd orau. Byddai angen parhau i wneud penderfyniadau anodd, teimlodd, er mwyn cyflawni'r arbedion y byddai angen i'r Gyfarwyddiaeth eu gwneud i symud ymlaen.

Adleisiodd yr Arweinydd y datganiad uchod, gan ychwanegu y byddai awdurdodau lleol yn cael llai o gyllid gan Lywodraeth Leol y flwyddyn nesaf, a byddai hyn yn arwain yn anochel at wneud penderfyniadau amhoblogaidd. Canmolodd y gostyngiad mewn Gofalwyr Maeth Annibynnol o 20% yn y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn ei dro arbed arian i'r Cyngor. Ychwanegodd fod niferoedd PDG CBSP hefyd yn sefydlogi tra bod y rhai hynny mewn awdurdodau cymdogol yn cynyddu'n gyffredinol. Roedd hefyd yn falch o weld bod Swyddogion yn gweithio'n galed i gadw plant yn ddiogel a lle bo'n bosibl, gyda'u teuluoedd uniongyrchol.

O ran y Rhaglen Gyfalaf, roedd yn hapus gyda'r buddsoddiad oedd yn cael ei ymrwymo i Brome'nâd y Dwyrain (£400k), gwelliannau i'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr a'r Harbwr (£2.5m), a darpariaeth Llwybrau Diogel i'r Ysgol (bron £1m). Ceisiodd gadarnhad fodd bynnag, fod yr holl ysgolion hyn bellach wedi cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod rhai o'r uchod wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor ac y byddai eraill yn cael eu cymeradwyo yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa alldro cyfalaf a referniw rhagweledig ar gyfer 2018-19.

232. **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS - GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS - RHEOLI CŴN**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dro Gymunedau adroddiad i geisio awdurdod i gynnal ymgynghoriad ychwanegol mewn perthynas â Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMCau), yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o fis Gorffennaf i fis Hydref 2017. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn benodol yn cyflwyno rheoliadau baw cŵn a rheoliadau cŵn eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Trwy wybodaeth gefndirol, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaeth y Gymdogaeth i'r Cabinet, trwy adroddiad dyddiedig 27 Mehefin 2017 o'r enw GDMCau, gymeradwyo Ymgynghoriad i geisio barn ar greu y rhain, at y dibenion wedi'u hamlinellu ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Ychwanegodd, er y byddai Gorchmynion yn perthyn i reoli cŵn heb eu cynnwys yn yr ymgynghoriad GDMC yn gychwynnol, ar ôl nifer o sylwadau gan Aelodau'n gofyn am fwy o gamau i fynd i'r afael â materion perchenogaeth cŵn anghyfrifol, fod cynnwys ymgynghoriad GDMC i fynd i'r afael â'r maes hwn hefyd yn cael ei gynnis.

Amlinellodd y rhan nesaf o'r adroddiad hyllter ac annymunoldeb baw cŵn a'r perygl y gallai ei achosi i iechyd pobl, ac, er bod y rhan fwyaf o berchenogion cŵn yn gyfrifol, fod minoriaeth sy'n caniatáu i'w cŵn fawa mewn mannau cyhoeddus heb lanhau ar eu hôl, a allai arwain at mater iechyd, megis er enghraifft mewn caeau chwarae ac ati.

Cynghorodd cyflwyno GDMC y gall Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth osod cyfyngiadau penodol a fyddai'n cynorthwyo gyda chywiros ymddygiad anghyfrifol sy'n gysylltiedig â minoriaeth o berchenogion cŵn.

Yna cadarnhaodd paragraff 4.6 yr adroddiad y broses i'w dilyn o ran unrhyw ymgynghoriad ar wneud Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn, tra bod paragraff 4.7 yn amlinellu'r ardaloedd y byddai'r Gorchmynion ar waith ynddynt mewn perthynas â mesurau rheoli ar gyfer perchenogion cŵn a lefel y ddirwy pe bai perchennog yn cael ei ddal yn mynd yn groes i ddarpariaethau o Gorchmynion o'r fath.

Daeth Pennaeth Gwasanaethu'r Gymdogaeth â'r gyflwyniad i ben gan ddweud y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus hefyd yn canolbwyntio ar farn grwpiau anabl, ac yn benodol, unrhyw effaith y byddai'r Gorchmynion yn ei chael ar y perchenogion cŵn hyn.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau yr adroddiad, gan ychwanegu, pe bai'r Gorchmynion yn cael eu cyflwyno, y byddent yn galluogi rheolaeth well dros unrhyw un sy'n cael ei ddala'n torri darpariaethau Gorchmynion o'r fath.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod yn gobeithio y byddai'r Gorchmynion yn cael eu hategu gan fwy o finiau sbwriel cŵn i gael eu lleoli mewn ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol, fel bod gan berchenogion gynhwysyddion digonol lle y gallant waredu baw cŵn y maent yn ei gasglu gan eu hanifail.

Dywedodd yr Arweinydd nad oes rhaid i berchenogion cŵn ofni'r cynigion yn yr adroddiad, ac y byddai'r Cabinet yn aros gyda diddordeb am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus. Gofynnodd beth yw diffiniad 'mannau cyhoeddus'.

Ymatebodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol a'r Swyddog Monitro fod hyn yn golygu unrhyw leoliad y gall y cyhoedd gael mynediad atynt, trwy dalu neu am ddim. Gallai arwyddion wedyn gael eu codi i roi wybod i'r cyhoedd fod y Gorchmynion ar waith yno.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cabinet yn cytuno:-

1. i gynnal arfer ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig i wneud Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GSMC) i gyflwyno rheoliadau cŵn ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel y nodir yn adran 4 yr adroddiad, yn benodol:
  - i wahardd cŵn rhag bawa ym mhob man cyhoeddus;
  - ar ofyniad i gludo bagiau neu ddulliau addas eraill i waredu baw cŵn;
  - ar ofyniad sy'n galluogi swyddogion awdurdodedig i roi cyfarwyddyd bod angen rhoi ci ar dennyn a'i gadw arno os oes angen.

i dderbyn adroddiad pellach yn manylu ar ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal ynghynt yn unol â pharagraff 3.1 yr adroddiad, a'r ymgynghoriad wedi'i gynnis yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion ar gyfer GDMCau arfaethedig.

**233. STRATEGAETH DDIWYDIANNOL YN FFYNNU O DDIWYGIO YNNI**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr dros Gymunedau adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) fod yn rhan o gonsortiw sydd am baratoi a chyflwyno cynnig i Lywodraeth y DU i fodloni gofynion ei Chronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol (ISCF) yn rhan o'r Rhaglen Ffynnu o Ddiwygio Ynni.

Dyweddodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth, wedi gweld gwybodaeth gefndirol, fod 'Y Ffynnu o Ddiwygion Ynni' yn rhan o Strategaeth Twf Glân Llywodraeth y DU, a'i fod yn lasbrint uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau carbon, gan ddiogelu'r amgylchedd. Crëwyd yr Her Diwygio Ynni hefyd i fynd i'r afael â llawer o heriau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ynni, megis y rhai hynny y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 3.1 yr adroddiad.

Ychwanegodd fod y system ynni'n newid yn gyflym ar hyn o bryd o ganlyniad i nifer o ffactorau megis y rhai wedi'u nodi ym mharagraff 3.2 yr adroddiad.

Ychwanegodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth hefyd fod y Llywodraeth yn ymrwymo swm sylweddol o arian i'w fuddsoddi yn arloesi carbon isel, hyd at 2021. Byddai 10% o hyn yn cael ei ddyrannu i ddatblygu systemau clyfar wedi'u dylunio i ddarparu ynni rhad a glân yn y sectorau trafndiaeth, pŵer a gwres. Dangoswyd dadansoddiad o arian y llywodraeth ar gyfer arloesi carbon isel ym mharagraff 3.3 yr adroddiad.

Dyluniwyd y Rhaglen Ffynnu o Ddiwygio Ynni i gael ei harwain gan fusnesau, i gael ei darparu trwy gonsortiw uchelgeisiol ac arloesol, a fyddai'n cynnwys y canlynol:-

- Datblygwyr Project;
- Arbenigwyr TGCh;
- Datblygwyr Technoleg;
- Awdurdodau Lleol;
- Cwmnïau Sector Ynni;
- Sefydliadau Ymchwil, a
- Ymgynghorwyr Aml-ddisgyblaethol

Esboniodd Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth y caiff y Cynnig ei arwain gan Cenin Renewables, cwmni yn safle Parc Stormy.

Byddai Prif Gynllun Digidol yn nodi sut y bydd technoleg digidol yn datblygu atebion integredig ar gyfer datgarboneiddio gwres, pŵer a thrafnidiaeth, a fydd yn creu buddion ym mhob rhan o'r system ynni gyfan.

Roedd y cynnig ar gyfer yr ISCF yn amodol ar gyfrinachedd masnachol o ganlyniad i rôl y sector preifat o fewn y cynnig, gyda'r bwriad y gallai'r safle Cenin Renewables ger Porthcawl ddefnyddio'i allu cynhyrchu pŵer i ddod yn hyb wedi'i ddatgarboneiddio.

Esboniodd Pennaeth Gwasanaeth y Gymdogaeth ymhellach fod trafodaethau hefyd wedi'u cynnal ar lefel Bargen Ddinesig, lle y gellir creu cyfleoedd cadwyn cyflenwi a dysgu ar gyfer y rhanbarth. Yn benodol, pe gellir cynnwys arian y Fargen Ddinesig yn y cynllun ar ryw adeg yn y dyfodol.

Daeth Pennaeth Gwasanaethau'r Gymdogaeth ei gyflwyniad o'r diwedd, gan amlinellu goblygiadau ariannol yr adroddiad.

Dyweddodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau ei fod yn hapus iawn gyda chynigion yr adroddiad a bod CBSP yn rhan o'r project ardderchog hwn.

Byddai £120m o arian ar gael rhwng y 3 awdurdod sy'n cymryd rhan, hy Pen-y-bont ar Ogwr, Manceinion a Newcastle. Byddai CBSP felly'n gwneud cais priodol am £40m yn rhan o'r project, oedd yn swm o'r arian heb ei debyg o'r blaen yn rhan o'r consortia.

Byddai bod yn rhan o'r Rhaglen Ffynnu o Ddiwygio Ynni yn gwella ymhellach enw da Pen-y-bont ar Ogwr sy'n tyfu fel lle cadarnhaol a rhagweithiol a grym mawr yn y DU pan ddaw hi'n fater o ddarparu dulliau ynni eraill gwell dan ei Gynllun Strategol Ynni, fyddai'n weithredol hyd at 2050.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, ychwanegodd, oedd 28 Gorffennaf 2018.

Cynigiodd yr adroddiad (a gafodd ei eilio a'i basio'n unfrydol) fel project blaenllaw a fyddai'n golygu y byddai Pen-y-bont ar Ogwr yn un o'r ychydig o ardaloedd elit yn y wlad sy'n darparu systemau ynni gwell yn y dyfodol.

Roedd yn falch o hyn, a diolchodd i'r tîm sy'n cefnogi'r project yn CBSP, gan fod hon yn adran fach iawn sy'n cyflawni projectau eang a gwych.

Adleisiodd yr Arweinydd hyn ac ychwanegodd fod y Rhaglen gyfan yn aruthrol ac y byddai'n sicrhau bod Pen-y-bont ar Ogwr i'w gweld yn glir ar y map fel un o'r 3 lleoliad yn unig yn y DU cyfan a fyddai'n cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen fawreddog hon, gyda'r holl arian am hyn yn dod o ffynhonnell allanol yn hytrach na ffynhonnell fewnol.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet yn rhoi cymeradwyaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gymryd rhan yn y cynnig IDCFC Ffynnu o Ddiwygio Ynni.

**234. PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Addysg a Chymorth i'r Teulu adroddiad, gyda'r diben o geisio cymeradwyaeth gan y Cabinet am benodi llywodraethwyr yr awdurdod lleol i gyrrff llywodraethu ysgolion a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Dangosodd y rhan hon o'r adroddiad fod penodiadau wedi'u gwneud i gyrrff llywodraethwyr yr ysgolion y rhoddwyd manylion amdanynt ynddo, gan y cafodd yr ymgeiswyr hyn eu hystyried yn addas at y rôl ac ni fu unrhyw gystadleuaeth am unrhyw un o'r swyddi gwag.

Amlygodd paragraff 4.2 yr adroddiad fod 17 lle gwag i'w llenwi o hyd mewn 15 Ysgol (Atodiad A yr adroddiad y cyfeiriwyd ato).

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio y byddid gwneud yr ymdrechion mwyaf i sicrhau bod y lleoedd gwag sy'n weddill ar gyff llywodraethu Ysgolion yn cael eu llenwi cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD:** Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r penodiadau a restrir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad

**235. DIWEDDARIAD AM Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol adroddiad gyda'r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i eitemau gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith (FWP) ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2018 i 31 Ionawr 2019.

Yn unol â darpariaeth Cyfansoddiad y Cyngor, bydd y FWP ar waith am bedwar mis, ac yn cynnwys materion y mae'r Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Throsolwg a'r Cyngor yn debygol o'u hystyried, ar ffurf cynlluniau, polisiau neu strategaethau sy'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Awdurdod.

Amlinellodd paragraff 4.1 yr adroddiad y FWP ar gyfer y Cabinet (Atodiad 1 yr adroddiad, y FWP ar gyfer y Cyngor ar gyfer yr un cyfnod (Atodiad 2 yr adroddiad), ac yn olaf y FWP Craffu a Throsolwg (a ddangosir yn Atodiad 3 yr adroddiad).

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol y byddai cost cyfieithu o oddeutu £60 am bob diweddariad chwarterol i'r FWP pan gaiff ei chyhoeddi ar wefan CBSP, a gaiff ei thalu gyda chyllidebau cyfredol.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y ffaith bod y FWP Craffu a Throsolwg wedi'i chreu'n ofalus gan y Pwyllgorau hyn a'i harwain gan y Cadeiryddion mewn ymgynghoriad â'r Cabinet a CMB, gyda'r bwriad o sicrhau bod eitemau pynciol ac ystyrlon yn cael eu cynnwys ar agendau cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a Throsolwg yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cabinet yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2018 i 31 Ionawr 2019, fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a  
(2) Nodi Blaenraglenni Waith Craffu a'r Cyngor fel y dangosir yn Atodiad 2 a 3 yr adroddiad, yn y drefn honno.

236. ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Chyfreithiol adroddiad, a roddodd wybod i'r Cabinet o adroddiadau Gwybodaeth i'w nodi wedi'u cyhoeddi ers ei gyfarfod diwethaf.

Manylir ar yr Adroddiadau Gwybodaeth y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Mewn perthynas â Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chynrychiolaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2017/18, dywedodd yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod hwn yn adroddiad gwych fel y adlewyrchwyd ym mharagraff 3.4, gan yr aethpwyd i'r rhan fwyaf o gwynion a dderbyniwyd a'u datrys yn anffurfiol (cyn cyrraedd Cam 1 y weithdrefn gwyno) a dod yn gwynion ffurfiol.

Cyfeiriodd hefyd at baragraff 4.2 yr adroddiad a gadarnhaodd mai 552 oedd nifer y sylwadau (cwynion, sylwadau a chanmoliaethau) wedi'u derbyn mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol i blant, ac o'r nifer hwn datryswyd 198 o bryderon cyn y weithdrefn gwyno, ac roedd 300 o ganmoliaethau wedi'u derbyn.

Ychwanegodd yr Arweinydd at hyn trwy ddweud bod hyn yn newyddion da, o ystyried bod mwy o gwynion wedi'u derbyn o fewn y cyfnod uchod nag yn y cyfnod blaenorol hy 2016/2017.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrir yn yr adroddiad.

237. EITEMAU BRYD

Dim.

238. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio) (Cymru) 2007, dylid eithrio'r cyhoedd o'r

cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem fusnes canlynol oherwydd ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 a 16 Rhan 4 a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn y cais am brawf buddiant y cyhoedd wrth ystyried yr eitem hon, datryswyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ei bod yn cael ei hystyried mewn preifat, gyda'r cyhoedd yn cael ei wahardd o'r cyfarfod gan y byddai'n cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r natur a nodir uchod.

239. CYMERADWYO'R COFNODION WEDI'U HEITHRIO

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 19 Mehefin 2018 fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:45